CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarno Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

4ydd Rhagfyr, 2024.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Nos Lun nesaf, 9fed Rhagfyr, 2024 am 7.30 y.h. yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog.

I . CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

2. YMDDIHEURIADAU

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL I dderbyn gwybodaeth.

4. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD I leg TACHWEDD, 2024 Copi'n amgaeëdig.

I drafod y materion yn codi o'r cofnodion.

a)Eitem 55 Cadarnhau Cofnodion — cymal Cae Capel, Botwnnog

I adrodd fod Meddygfa Rhydbach yn anhapus gyda rhan o ddatganiad y Cyngor — bydd y nodyn isod yn ffurfio rhan o'r pigion i'r Llanw y mis yma:

"Noder yn dilyn sylw gan y Feddygfa, fod y Cyngor bellach yn tynnu eu sylwad y byddai'r datblygiad yma yn rhoj mwy o bwysau ar "Feddygfa Rhydbach sydd bellach i'w Ilawn gapasiti ..." yn ôl o bob datganiad/gwrthwynebiad.

Hefyd i adrodd fod cefnogaeth i'n Ilythyr at ADRA wedi ei dderbyn gan Gyngor Cymuned Llanllechid.

b)Eitem 55 — (I) Goryrru ar Allt
Mellteyrn I adrodd ymhellach.

c)Eitem 57 — Materion Ffyrdd a Llwybrau

I adrodd ar ymateb Adran Priffyrdd os i law.

Adroddiad y Cynghorydd Glyn Roberts — mynedfa i Eglwys Llandegwnning. ch)Eitem 58 — Dogfen Cefnogi Comisiwn Cymunedau Cymreig

Ymateb Pennaeth Adran Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Gwynedd a Ilythyr cydnabod gan Mark Drakeford, Aelod Seneddol. Hefyd e-bost gan Wendi Patience, Un Llais Cymru.

d)Eitem 61 — Coeden Nadolig/addurniadau i'r potiau blodau

I adrodd ar y sefyllfa ddiweddaraf ac awdurdodi'r taliadau.

dd)Eitem 64 — Cyfrwng rhydweithio a chydweithio rhwng Mentrau Cymunedol

I adrodd ar y cyfarfod gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Sarn ar 20fed Tachwedd, ac i enwebu dau gynrychiolydd o'r Cyngor i fynychu cyfarfod yn y flwyddyn newydd gyda syniadau am bosiectau posibl.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

I drafod y cais a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor.
Cais C24/0924/32/LL — cais Ilawn ôl-weithredol i ddymchwel adeilad gweithdy a chodi adeilad newydd yn ei le i'w ddefnyddio fel gweithdy peirianyddol ynghyd a chreu mannau parcio a throi a gosod cynhwysydd storio Gweithdy, Rhent, Bryncroes.

6. CYNLLUNIO A CHYMUNEDAU CYMRAEG

I ystyried e-bost Oddi wrth yr Adran Cynllunio ac e-bost Sian Parri 29ain Tachwedd,
2024. "B"

7. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

8. AWDURDOD I DALU

I awdurdodi'r taliadau a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw yn ddyledus cyn noson y Cyngor.

| | |
|---|---|
| HMRC | {105.00 |
| Y Clarc | {420.00 |

9. DWEUD EICH DWEUD AR GYLLID PLISMONA YNG NGOGLEDD CYMRU

E-bost gan Matthew Evans, Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Heddlu Gogledd Cymru - copi'n amgaeedig. "C"

10.GWASANAETH GOFAL BRYS NEWYDD WEDI'I GYNLLUNIO AR GYFER RHANNAU GWLEDIG AC ARFORDIROL ANGHYSBELL O GANOLBARTH A GOGLEDD CYMRU

Dogfen gan Dîm CBCGC — copi'n amgaeedig. "CH"

11.Y SEFYLLFA ARIANNOL

Adroddiad y Clarc — dim gwariant na derbyniadau yn ystod mis Tachwedd.

12. CYRSIAU UN 'LAIS CYMRU

I gyflwyno rhestr o'r cyrsiau gynigir gan Un Llais Cymru.

13. GWAHODD TENDRAU BARBIO

Yn gywir,

Gwenda Roberts

Clarc

## AELODAETH Y CYNGOR Y CYNGHORWYR

| | | |
|---|---|---|
| Carys H. Evans | Elin Hughes | Gwenan Griffiths |
| Dylan Parry Jones | Glyn Roberts | Michael Strain |
| Efan Thomas | Carys E. Williams | Glenys Williams |
| Iwan J. Williams | Siôn Williams | |